ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru



# Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru

## Cynulleidfa

Pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ynghyd â'r sefydliadau gwaith ieuenctid a staff gwaith ieuenctid sy'n eu cefnogi, yn ogystal â'r rhanddeiliaid ehangach sy'n gweithio i wella deilliannau i bobl ifanc.

## Trosolwg

Mae'r strategaeth hon yn cynnig gweledigaeth gytûn ar gyfer dyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r egwyddorion lefel uchel sydd wedi'u pennu yn y ddogfen hon wedi'u datblygu ar y cyd â phobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid. Mae'r strategaeth yn cynnig cyfres o gamau gweithredu a fydd yn ein symud ni yn nes at ein hamcanion hirdymor a bydd yn cael ei hategu gan Gynllun Gweithredu.

## Camau i'w cymryd

Gofynnir i'r sector gwaith ieuenctid weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r weledigaeth a osodir yn y strategaeth hon.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: GwaithIeuenctid@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru

## Dogfennau cysylltiedig

*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* (2018); *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Cyfarwyddyd a Chanllawiau* (2002); *Ein Dyfodol: Adolygiad o Ymestyn Hawliau* (2018); *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* (2013)

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37208 ISBN digidol 978 1 83876 451 7

# Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog 4

Cyd-destun 5

Cyflwyniad 7

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol 9

1. Mae pobl ifanc yn ffynnu **11**

2. Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol **15**

3. Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n wirfoddol neu’n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa **19**

4. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a’i ddeall **23**

5. Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid **27**

Casgliad 31

Geirfa 32

# Rhagair gan y Gweinidog

Rhwng 11 a 25 oed mae pobl ifanc yn mynd trwy newidiadau a datblygiadau pwysig wrth iddynt bontio rhwng plentyndod, blaenlencyndod a byd oedolion ifanc. Yn ystod y cyfnod hanfodol hwnnw, ein dyletswydd yw helpu i gefnogi pobl ifanc, gan roi iddynt y cyfleoedd, yr arweiniad a'r profiadau y gallant ddatblygu'n bersonol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn academaidd.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith ieuenctid, sy'n cael ei ddarparu drwy wasanaeth ieuenctid cyfunol, yn cael ei gryfhau a'i rymuso i gyfrannu at yr agenda ataliol hon ac i hyrwyddo hawliau pobl ifanc.


Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i waith ieuenctid drwy fuddsoddi lefelau o gyllid gan y llywodraeth nas gwelwyd o'r blaen er mwyn ei gyflawni, helpu i gryfhau'r gwasanaeth ieuenctid ac annog ffordd strategol newydd. Mae lleisiau pobl ifanc a'r sector yn sail i'r ffordd hon o weithredu, ac mae'n cael ei chefnogi gan ymdrechion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. O ganlyniad, yr hyn sydd gennym yw gweledigaeth a dull cydweithredol sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc a'r sector er mwyn cryfhau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Felly, yn y cyd-destun hwnnw rydym yn mynd trwy gyfnod o waith diwygio mawr ym maes addysg. Fel sydd wedi'i ddangos gan y strategaeth hon, nid yw'r newidiadau hyn yn digwydd i ysgolion yn unig. Maent hefyd yn gofyn i ni integreiddio addysg ffurfiol ac addysg heb fod yn ffurfiol, a dysgu anffurfiol. Mae hynny'n golygu bod angen datblygu ffyrdd newydd o weithio a phartneriaethau arloesol. Mae hefyd yn gofyn bod angen nodi a chydnabod tir cyffredin ar draws y gwasanaethau hynny sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc. Nid oes angen i ni edrych ymhellach na *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*[1] (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2018) a phedwar diben ein cwricwlwm newydd i nodi'r nodau a'r amcanion sy'n llywio gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol yng Nghymru.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o gamau cydweithredol i wella darpariaeth gwaith ieuenctid a'r hyn yr ydym yn ei gynnig i bobl ifanc. Bydd yn darparu'r dystiolaeth a fydd yn creu model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Drwy weithio gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau'r gorau i'n pobl ifanc.



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg



[1] www.cwvys.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/GWAITH-IEUENCTID-YNG-NGHYMRU-EGWYDDORION-A-DIBENION.pdf

# Cyd-destun

**Nod gwaith ieuenctid yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol i'w galluogi i feithrin eu llais a chwarae rhan mewn cymdeithas, a chyrraedd eu potensial llawn.**

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol[2]

Mae gwaith ieuenctid yn cynnig i bobl ifanc gyfleoedd dysgu sydd yn addysgiadol, yn fynegiannol, yn gyfranogol ac yn grymuso.

## Egwyddorion gwaith ieuenctid yng Nghymru

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi'i seilio ar ymgysylltiad gwirfoddol pobl ifanc fel eu bod yn bartneriaid sy'n gallu lleisio eu barn. Gall ddechrau ar unrhyw adeg ym mha gyfnod bynnag y mae pobl ifanc yn eu bywydau, mae'n cydnabod ac yn ceisio datblygu a gwireddu eu potensial, ac mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn holl bwysig. Mae gwaith ieuenctid yn gweithredu ar sail hawliau, ac ar yr un pryd mae hefyd yn helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â'r cyfrifoldebau a'r gofynion a osodir arnynt. Drwy fanteisio ar gyfleoedd sydd heb eu cynllunio, a hefyd drwy gynllunio cyfleoedd sydd ar gael y tu allan i systemau ffurfiol addysg, mae gwaith ieuenctid yn cynorthwyo'r dysgu, sy'n cynnwys drwy achrediadau neu gydnabyddiaeth lle bo hynny'n briodol. Diben craidd gwaith ieuenctid yw ei fod yn darparu amgylcheddau diogel a'i fod yn cefnogi datblygiad a lles pobl ifanc. Mae gwaith ieuenctid yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth iaith a diwylliant, yn enwedig iaith a diwylliant Cymru, a'r angen i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

## Dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn hybu ac yn annog cyfleoedd i bob person ifanc er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial llawn fel unigolion â grym ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau, a thrwy hynny'n gwella eu cyfleoedd bywyd. Mae'n eu cefnogi drwy newidiadau arwyddocaol yn eu bywydau ac yn eu hannog i feithrin a datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd, ac i wneud defnydd cadarnhaol o'u sgiliau, eu hadnoddau a'u hamser. O wneud hynny, mae'n hyrwyddo cyfleoedd a mynediad i bob person ifanc ni waeth beth fo'u hil, rhywedd, hunaniaeth rywiol, iaith, crefydd, anabledd, oedran, cefndir neu amgylchiadau personol. Un o rolau allweddol gwaith ieuenctid yw herio gorthrwm ac anghydraddoldeb, gan gefnogi a galluogi pobl ifanc i gadw eu hunain yn ddiogel.

[2] www.youthworkwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/01/youth_work_nos_welsh_language_full_suite.docx-1.pdf

## Sut y mae'n cael ei gyflawni?

Mae gwaith ieuenctid yn hawl gyffredinol, sy'n cael ei chyflawni gan wasanaethau ieuenctid gwirfoddol ac awdurdodau lleol, ac mae ar gael i bob person ifanc o fewn yr ystod oedran 11 i 25. Mae gwaith ieuenctid yn elfen hanfodol o wasanaethau cymorth ieuenctid, sy'n ceisio sicrhau bod gan bob person ifanc 11 i 25 oed fynediad i amrywiaeth o wasanaethau, cymorth a phrofiadau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123, mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol ddarparu, sicrhau'r ddarpariaeth, neu gyfrannu at ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

## I bwy y mae'r strategaeth hon?

Pobl ifanc; staff gwaith ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol a'r rheini sy'n gweithio am dâl; sefydliadau gwaith ieuenctid; gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a rhai awdurdodau lleol; sefydliadau neu unigolion sy'n darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid; sectorau ehangach sy'n gweithio i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc; rheolwyr gwasanaethau; comisiynwyr; gwleidyddion; y rheini sy'n cynnal archwiliadau gwaith ieuenctid, neu sy'n ymwneud â rolau rheoleiddio neu sicrhau ansawdd.

# Cyflwyniad

Gall gwaith ieuenctid olygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac mae hynny'n rhannol wedi cyfrannu at nifer o wahanol ddulliau strategol i'w gyflawni. Ond yr hyblygrwydd hwn, sy'n seiliedig ar werthoedd neilltuol, yw un o gryfderau mwyaf gwaith ieuenctid. Nid yw gwaith ieuenctid wedi'i gyfyngu i un lleoliad neu gyd-destun, ond yn sicr mae'n rhan allweddol o'r gwasanaeth addysg ehangach. Gall gwaith ieuenctid addasu, a gall wneud hynny heb golli ei werthoedd, ei egwyddorion a'i ddiben. Gall gwaith ieuenctid newid bywydau.

Drwy waith ieuenctid – sefydlu cydberthnasau ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt, cydberthnasau iach â chyfoedion a mannau diogel i ddatblygu – y gellir cefnogi pobl ifanc i ddatblygu gwytnwch a dod i ddeall yn well sut i wneud dewisiadau effeithiol. Gall y twf hwn, sy'n aml yn cael ei arwain gan bobl ifanc, yn cael ei gyd-drafod â nhw bob tro, ac yn cael ei ddarparu drwy amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol sy'n ennyn diddordeb, fod yn dwf personol, emosiynol, gwleidyddol neu addysgol. Drwy helpu i gynyddu ymddiriedaeth drwy ddibynadwyedd a chysondeb, gall gwaith ieuenctid hefyd gefnogi pobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o berthyn. Mae gwaith ieuenctid yn hybu cydraddoldeb, yn dathlu amrywiaeth, yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, yn datblygu gwytnwch, ac yn cefnogi pobl ifanc i ddeall eu hawliau a gallu manteisio arnynt. Mae ganddo'r potensial i sicrhau budd i bob person ifanc, ac i sicrhau bod cefnogaeth sy'n cael ei hanelu at y rhai mwyaf agored i niwed yn eu plith yn cael yr effaith fwyaf posibl. Yn ychwanegol at hyn, mae'n dal ffordd arbennig o dda o rymuso pobl ifanc i ddefnyddio eu llais, i gael eu clywed, ac i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio, gan gynnwys sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n atebol am eu gweithredoedd. Gall gwaith ieuenctid gynorthwyo pobl ifanc i fwynhau llwyddiant heddiw a phan fyddant yn oedolion, ac mae eisoes yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, nid yw gallu a photensial gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi'u gwireddu'n llawn eto, ac nid oes dull systematig gennym eto o ran cynllunio amdano a'i gyflawni. Rydym yn cydnabod bod adnoddau'n brin a bod penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud. Ond, mae gwaith ieuenctid effeithiol yn dibynnu ar fuddsoddiad ystyrlon, meithrin cysylltiadau â phobl ifanc, a gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector. Mewn rhai achosion mae'r prosesau a'r partneriaethau hynny mewn cyflwr gwael. Pan fydd gwasanaethau'n cael eu tynnu, neu os nad ydynt yn cael eu darparu'n dda, y rhai sy'n dioddef yw'r bobl ifanc a gwaith ieuenctid.

Rhaid i ni ailddatgan ein hymrwymiad i bobl ifanc ac i waith ieuenctid. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau drwy fuddsoddiad na welwyd ei debyg o'r blaen yn y gwasanaeth ieuenctid. Gyda'n gilydd, rhaid i ni adeiladu ar hyn, gan weithio mewn partneriaeth i sicrhau camau gweithredu unigol a chyfunol. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae.

## Pennod newydd

Mae Cymru wedi dangos ymrwymiad cryf i gefnogi plant a phobl ifanc ers blynyddoedd. Fel rhan o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, roedd *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Cyfarwyddyd a Chanllawiau* (2002)[3] wedi ceisio sicrhau

[3] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cyfarwyddyd-a-chanllawiau-ymestyn-hawliau-cynorthwyo-pobl-ifanc-o-11-i-25-oed-yng-nghymru.pdf

cefnogaeth a set o hawliau ar gyfer pobl ifanc drwy waith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae strategaethau gwaith ieuenctid dilynol wedi datblygu'r egwyddorion hynny ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iddynt. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ar gyfer llunio polisïau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn 2004. Cryfhawyd y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar hawliau gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant, a'r wlad gyntaf i gynnwys mewn cyfraith yr angen i ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol a gweithio tuag at hynny. Mae ein *Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc* (2016)[4] yn bodoli er mwyn sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed a'u bod yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Daeth yn amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y gallem, ac y dylem, fod wedi gwneud mwy. Felly, mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn cael pobl ifanc a'r sector i ymwneud o'r newydd â sgwrs ynglŷn â pha fath o wasanaeth ieuenctid y byddem yn hoffi ei weld yng Nghymru. Mae canlyniadau'r trafodaethau hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth hon, a bellach mae'n bryd i ni gymhwyso'r hyn a ddysgwyd a symud ymlaen drwy ddechrau ysgrifennu pennod newydd, gadarnhaol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Nid yw'r strategaeth hon yn cynnig ateb cyflawn ar hyn o bryd, nac ateb cynhwysfawr sy'n barod i'w roi ar waith. Yn hytrach, mae'n amlinellu'r egwyddorion pwysig y credwn y dylem fod yn gweithio tuag atynt, ac yn nodi camau gweithredu a fydd yn mynd â ni yn nes at ein nodau hirdymor. Bydd yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu manwl, sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2019, a fydd wedi'i gyfyngu i oes y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau newid cyflym ac er mwyn datblygu'r dystiolaeth angenrheidiol a fydd yn sail i argymhellion y bwrdd ar ddiwedd ei oes.

[4] gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/Bilingual-Participation-Standards-poster2016.pdf

# Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

**Mae Cymru'n wlad lle mae:**

- pob person ifanc yn ffynnu, ac yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n rhoi mwynhad ac yn cyfoethogi eu datblygiad personol drwy waith ieuenctid
- gwaith ieuenctid yn seiliedig ar hawliau, yn cael ei arwain gan bobl ifanc, ac yn cael ei gynllunio a'i gefnogi ar y cyd gan weithlu medrus o wirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu talu
- pobl yn deall gwerth gwaith ieuenctid, â llinellau atebolrwydd clir.

Gweledigaeth a rennir yw hon. Wrth ddatblygu ein gweledigaeth rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr, a rhwydweithiau a grwpiau gwaith ieuenctid gwirfoddol, awdurdodau lleol ac annibynnol, gan gynnwys Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, Prif Swyddogion Ieuenctid, Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru ac Estyn.

Mae'r ffordd hon o weithio yn adlewyrchu ein hymrwymiad i arweinyddiaeth systemau – dull sy'n grymuso pobl ifanc a'r gweithlu – a fydd yn helpu i sicrhau bod y sector yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu a gweithredu ein cyfarwyddyd strategol newydd. Felly, mae'r termau 'ni' ac 'ein' sy'n cael eu defnyddio drwy'r strategaeth hon yn cyfeirio at y sector cyfan.

Mae'r weledigaeth hefyd yn seiliedig ar waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid, y Grŵp Marchnata Gwaith Ieuenctid, yr adroddiad *Ein Dyfodol: Adolygiad o Ymestyn Hawliau* (2018)[5], gwerthusiadau annibynnol o ffrydiau cyllido a strategaeth gwaith ieuenctid Llywodraeth Cymru, a thrafodaethau gyda phartneriaid amrywiol yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn cael ei chyflawni drwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pum nod canlynol.

**1. Mae pobl ifanc yn ffynnu**

**2. Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol**

**3. Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa**

**4. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall**

**5. Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid**

[5] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/ein-dyfodol-adolygiad-o-ymestyn-hawliau.pdf



# 1. Mae pobl ifanc yn ffynnu

“Rwy eisiau mynd i fannau diogel i gymdeithasu, gwneud ffrindiau a rhoi cynnig ar bethau newydd.”

“Hoffwn i allu tyfu i fod y gorau y galla i fod.”

Hoffem weld Cymru fedrus, hyderus, deg a chynhwysol, lle mae pobl ifanc yn cael cyfle i dyfu, datblygu a chwarae rhan weithredol. Drwy waith ieuenctid, mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i ganfod eu llais, ffurfio a chyfleu eu syniadau, datblygu annibyniaeth, meithrin sgiliau, gwneud ffrindiau ac, yn bwysicach na dim, cael hwyl. I helpu sicrhau y gall pobl ifanc ffynnu, mae angen i ni sicrhau ein bod yn creu mannau diogel a diwylliannau gwaith ieuenctid sy’n ofalgar, yn gynhwysol ac yn oddefgar, ac sy’n meithrin ymddiriedaeth ac ymdeimlad o berthyn. Yn ogystal â rhoi’r profiadau hyn iddynt, mae a wnelo hyn â sicrhau eu bod yn chwarae rôl bwysig wrth gyfrannu at y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt heddiw ac yn y dyfodol. Os nad ydym yn cyflawni’r dyheadau hynny, ni allwn wireddu ein gweledigaeth.

## I wneud Cymru'n lle gwych i bobl ifanc dyfu a ffynnu ynddo, mae arnom eisiau i bobl ifanc:

- gael mynediad at gyfleoedd sy'n gwella dysgu anffurfiol, ac yn eu helpu i ymgymryd â phrofiadau dysgu cymdeithasol, heb fod yn ffurfiol a mwy strwythuredig, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – a thrwy'r rhain byddant yn meithrin cydberthnasau iach, osgoi arwahanrwydd ac unigrwydd, datblygu gallu cymdeithasol ac emosiynol, annibyniaeth, hunanreolaeth, hyder a gwytnwch
- cael mynediad at fannau diogel lle maent yn teimlo bod croeso iddynt, lle maent yn cael hwyl, yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi, beth bynnag eu cefndir neu eu cyd-destun personol
- cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cyfleoedd hyn a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a chael mynediad i'r prosesau sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau; dylid cael partneriaethau ystyrlon gyda phobl ifanc i wneud hyn yn realiti
- cael budd o gydberthnasau gydag oedolion a chyfoedion y gellir ymddiried ynddynt i lywio ac archwilio profiadau newydd
- deall eu hawliau a gallu eu defnyddio, gan gynnwys eu hawl i gael gwybodaeth gynhwysfawr, wrthrychol, ddealladwy a dibynadwy sy'n bodloni eu holl gwestiynau a'u hanghenion
- deall a dathlu amrywiaeth, ar bob ffurf, a datblygu ymdeimlad cryf a modern o hunaniaeth a chymuned Gymreig.

## Wrth weithio tuag at y nodau hyn, rydym wedi:

- gwrando ar bobl ifanc drwy ddeialog wyneb yn wyneb, gwerthusiadau, holiaduron a'n harolwg 'Dewch i Drafod Gwaith Ieuenctid', er mwyn i'w llais fod yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn genedlaethol
- sefydlu rhwydweithiau ieuenctid, cynghorau ieuenctid, a chamau gweithredu sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc yn lleol drwy ddarpariaeth gwaith ieuenctid wirfoddol a darpariaeth awdurdodau lleol
- diweddaru'r ddogfen *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* – gan gynnwys rôl pobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- buddsoddi dros £10 miliwn drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid i ategu a chynyddu buddsoddiad awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn y gwaith o ddarparu cyfleoedd a phrofiadau gwaith ieuenctid i bobl ifanc.

## I'n symud tuag at ein gweledigaeth gyffredin byddwn yn:

- parhau i fuddsoddi mewn datblygu a chyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid gyson ac o safon drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ble bynnag mae pobl ifanc yn byw, a beth bynnag eu hoed, hunaniaeth neu gefndir
- datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, sydd wedi'i seilio ar CCUHP, er mwyn sicrhau bod polisïau a darpariaeth gwaith ieuenctid yn:
  - ymgorffori hawliau plant
  - sicrhau cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu
  - grymuso plant a phobl ifanc
  - cefnogi eu cyfranogiad
  - pennu atebolrwydd
- ystyried y modd y mae pobl ifanc yn defnyddio, yn creu ac yn dehongli gwybodaeth er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau a manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau ym maes gwaith ieuenctid, a'r modd y gall offer digidol wella ein dulliau
- adeiladu ar amcanion Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru 2016, er mwyn gweithio tuag at gynnig cenedlaethol hawdd i'w adnabod ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru
- datblygu a chryfhau darpariaeth benodol wedi'i hanelu at gefnogi a gwella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n fwy agored i niwed neu sydd ar y cyrion.



# 2. Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol

"Dylai pawb allu cymryd rhan."

"Os bydd angen i mi gael help, rwy am i chi fod yno pan fydd eich angen chi arna i."

Mae gwaith ieuenctid o safon yn ymwneud â rhyngweithio cymdeithasol, ond nid oes rhaid iddo fod wedi'i gyfyngu i sefydliad penodol na lleoliad daearyddol penodol. Cryfder gwaith ieuenctid yw ei allu i addasu i wahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau. Mae'n cael ei ysgogi gan unigolion a sefydliadau gwybodus, cymwys, ymroddedig yn y sectorau gwirfoddol, statudol a phreifat ac, yn ganolog i'r cyfan, mae gwaith ieuenctid yn creu mannau diogel i bobl ifanc ddysgu a thyfu.

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, rhaid i ni sicrhau bod gwaith ieuenctid o safon yn y Gymraeg a'r Saesneg, a lle bo'n briodol yn newis iaith yr unigolyn, a'i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bobl ifanc ym mhob cwr o'r wlad. Er ei bod yn bwysig ein bod yn ystyried materion megis lleoliad gwasanaethau a natur wledig rhai ardaloedd, rhaid i waith ieuenctid hefyd fod yn hygyrch ac yn gynhwysol mewn ystyr ehangach i bob person ifanc. Dylai adlewyrchu holl wahanol gefndiroedd, hunaniaethau, profiadau ac anghenion pobl ifanc yng Nghymru. Felly, rhaid i waith ieuenctid gael gwared ar rwystrau rhag meithrin cysylltiadau a chymryd rhan, gan sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb, yn enwedig i'r bobl ifanc hynny a allai deimlo eu bod ar wahân, ar y cyrion, wedi dioddef camanfantais, neu wahaniaethu, gan gynnwys y rheini sydd â nodwedd warchodedig. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ailfeddwl am ein dulliau o ddarparu cynnig hygyrch, a gweithredol, lle bynnag y mae'r pwynt mynediad.

## Mae arnom eisiau i waith ieuenctid:

- greu mannau diogel y gall pob person ifanc ddewis mynd iddynt yn wirfoddol – gall y mannau diogel hyn fod yn rhai ffisegol (mewn clwb neu ganolfan, ar y stryd, mewn cyfleusterau hamdden, yn rhan o wasanaeth allgymorth), rhithwir (dros y ffôn, digidol) neu emosiynol (drwy sefydlu diwylliannau croesawus, sy'n dangos dealltwriaeth, ac sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc)
- bod yn weladwy i bobl ifanc a'u teuluoedd, fel eu bod yn gwybod ble i fynd i gael cymorth, ac yn weladwy i feysydd gwasanaethau eraill, fel eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at gefnogaeth a chyngor ynglŷn â gweithio gyda phobl ifanc
- cael ei gynllunio, ei ddarparu a'i adolygu gan sector unedig (wedi'i uno gan dir cyffredin, gan gynnwys gwerthoedd cyffredin a ffyrdd o weithio y cytunir arnynt) drwy ddull partneriaeth (gyda'i gilydd a chyda phobl ifanc) sy'n gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau sydd ar gael
- cynnig digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio a chyfleoedd ad hoc ar gyfer datblygiad emosiynol, personol ac ieithyddol pobl ifanc
- gallu ymateb i amgylchiadau sy'n newid, bod yn briodol ac yn hygyrch i bob person ifanc 11 i 25 oed.

## Wrth weithio tuag at y nodau hyn, rydym wedi:

- cydweithio i sefydlu cydberthnasau cadarnhaol â'r llywodraeth, ac ar draws y sector, drwy feithrin cysylltiadau a thrwy sefydlu rhwydweithiau
- cynyddu'r buddsoddiad ac wedi nodi, drwy feini prawf y Grant Cymorth Ieuenctid, y disgwylir i bartneriaid mewn sector unedig weithio ar y cyd i gynllunio a darparu gwaith ieuenctid
- treialu dulliau gweithredu i sicrhau bod lefelau digonol o gyfleoedd gwaith ieuenctid yn cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn ardaloedd lleol
- cryfhau capasiti sefydliadau gwaith ieuenctid cenedlaethol yng Nghymru, drwy ein Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol
- darparu cyllid craidd i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) i barhau i gefnogi grŵp amrywiol o wasanaethau ieuenctid gwirfoddol lleol a chenedlaethol ledled Cymru
- cynnig hyfforddiant i wasanaethau gwaith ieuenctid gwirfoddol a rhai'r awdurdodau lleol, gan sicrhau eu bod yn gallu adnabod ac ymateb i anghenion pobl ifanc yn well.

## I'n symud tuag at ein gweledigaeth gyffredin byddwn yn:

- datblygu gwell dealltwriaeth o rôl ac argaeledd darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru, a datblygu rhaglen waith gyda'r bwriad o gynyddu cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg
- ystyried ymchwil ac arferion gorau yn ymwneud â chreu mannau diogel, hygyrch ar gyfer darparu gwaith ieuenctid a datblygu canllawiau i gefnogi'r gwaith o'u gweithredu
- datblygu cynlluniau peilot er mwyn gwneud gwaith ieuenctid yn fwy hygyrch, gan gynnwys drwy wasanaethau allgymorth, ar y cyd ag ysgolion ac amrywiaeth o bartneriaethau, ac yn ddigidol
- cryfhau'r cysylltiadau rhwng darpariaeth awdurdodau lleol a darpariaeth wirfoddol drwy ddatblygu disgwyliadau cyffredin ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaeth ieuenctid unedig
- treialu mecanwaith ffurfiol ac egwyddorion ar gyfer sefydlu lefel ddigonol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar lefel leol, a'i roi ar waith yn raddol yn genedlaethol
- mapio a chael gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys darpariaeth drosiannol (cyn 11 oed), a darpariaeth ar gyfer y rheini sy'n 18 i 25 oed lle bo'r gwasanaethau'n llai cyson a hygyrch
- parhau i chwilio am gyfleoedd i bobl ifanc elwa o well symudedd, cyfleoedd a phrofiadau y tu hwnt i Gymru a'r DU.



# 3. Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n wirfoddol neu’n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa

“Rhaid i ni gael y gweithwyr ieuenctid gorau sy’n fedrus ac yn frwdfrydig am eu gwaith.”

“Rwy am gael y cymorth gorau posibl gan rywun rwy’n gallu ymddiried ynddo.”

Ein hadnodd gorau yw’r gweithlu ieuenctid – gwirfoddolwyr a staff proffesiynol sy’n cael eu talu – sy’n darparu cyfleoedd a phrofiadau i bobl ifanc ledled y wlad. Mae’r cyfleoedd a’r profiadau hyn yn aml yn amrywiol, ond eu prif amcan yw eu bod yn fodd o wella datblygiad cymdeithasol, emosiynol a phersonol pobl ifanc. Maent yn dod o gefndiroedd amrywiol ac mae eu sgiliau, eu gwybodaeth a’u profiad yn amrywio. Yr hyn sy’n eu huno yw eu brwdfrydedd a’u hymrwymiad i weithio gyda phobl ifanc drwy ddulliau gwaith ieuenctid a gwneud gwahaniaeth i’w bywydau. Heb yr adnodd hwn a’r rhwydweithiau sy’n eu cefnogi, a heb fod buddsoddiad a chefnogaeth briodol yn cael eu rhoi iddynt, ni fydd yn bosibl i ni wireddu ein gweledigaeth. Rydym yn gwerthfawrogi eu hymdrechion ac rydym yn awyddus i’w gwobrwyo drwy eu cefnogi a’u helpu i ddysgu, a thrwy sicrhau’r gydnabyddiaeth y mae eu proffesiwn yn ei haeddu.

## Mae arnom eisiau i staff sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl:

- fod yn falch o'r gwaith gwerthfawr, hanfodol y maent yn ei wneud gyda phobl ifanc, a chael eu cydnabod yn eang fel rhai sydd â rhan allweddol i'w chwarae yn y system
- bod yn fedrus iawn a chael mynediad at gyfleoedd ar gyfer datblygiad parhaus drwy gydol eu gyrfa, o'r dechrau i'r diwedd, ni waeth beth fo'r llwybr a ddewisir ganddynt
- cael eu cefnogi drwy broses gofrestru broffesiynol, gan ddibynnu ar natur y gwaith y maent yn ei wneud, sy'n ychwanegu gwerth i'w hymarfer
- cael mynediad at gyfleoedd rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer rhwydweithio a chynadleddau, gan ganolbwyntio ar rannu ymarfer da a darparu gwybodaeth
- cael cyfleoedd i weithredu fel arweinwyr system, gan chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio, datblygu a gweithredu polisi gwaith ieuenctid
- teimlo'n hyderus eu bod yn gallu ymarfer gwaith ieuenctid mewn amgylchedd sefydlog lle mae eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi yn y tymor hwy.

## Wrth weithio tuag at y nodau hyn, rydym wedi:

- sefydlu Trywydd Cymwysterau Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ac wedi darparu cyllid ar gyfer datblygu gweithlu proffesiynol
- cyfrannu tuag at y gwaith o godi statws a safle gweithwyr ieuenctid proffesiynol drwy gyflwyno cofrestru proffesiynol drwy Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- rhoi cyllid i'r Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru er mwyn sicrhau ansawdd hyfforddiant gwaith ieuenctid
- darparu cyllid i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) er mwyn iddo allu chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi'r sector gwirfoddol â hyfforddiant, cyngor a chyfleoedd rhwydweithio
- ariannu aelodaeth Cymru o Asiantaeth Gwybodaeth Ieuenctid a chwnsela Ewrop (ERYICA) er mwyn galluogi sefydliadau ac unigolion yng Nghymru i gael cymorth a hyfforddiant Ewropeaidd
- gweithio gydag Asiantaeth Genedlaethol y DU ar gyfer rhaglenni ieuenctid yr Undeb Ewropeaidd (y Cyngor Prydeinig ac Ecorys) i gefnogi a hyrwyddo mynediad at gyllid Ewropeaidd ar gyfer mudiadau a hyfforddiant ieuenctid drwy Erasmus+ a'r Corfflu Cydsefyll Ewropeaidd
- cefnogi'r gwaith o rwydweithio a rhannu arferion drwy Nod Ansawdd Gwaith Ieuenctid, Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid a chynadleddau cenedlaethol blynyddol
- cynnwys gwaith ieuenctid yn y Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd dulliau addysg heb fod yn ffurfiol a ffurfiol.

## I'n symud tuag at ein gweledigaeth gyffredin byddwn yn:

- datblygu, yn cyhoeddi ac yn gweithredu Cynllun Datblygu Gweithlu ar gyfer sector unedig ac ar bob haen (gan gynnwys, er enghraifft, person ifanc, prentis, gwirfoddolwr, ymddiriedolwr, gweithiwr ieuenctid proffesiynol, rheolwr gwasanaeth)
- deall ac ymateb i anghenion hyfforddiant yn y Gymraeg sydd eisoes yn bodoli
- sicrhau bod hyfforddiant gweithwyr ieuenctid cymwys proffesiynol yn bodloni'r hyn y mae ei angen ar bobl ifanc heddiw a'r hyn y mae ei angen ar y cyd-destunau y mae gwaith ieuenctid yn cael ei gynnal ynddynt
- adolygu ac yn diweddaru'r Trywydd Cymwysterau Gwaith Ieuenctid er mwyn gwella'r dilyniant
- dechrau datblygu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr yn y sector gwaith ieuenctid, a meithrin cysylltiadau â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn ystyried a yw'n gymwys i'w chymeradwyo
- gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ni am y gweithlu (gwirfoddol a'r awdurdodau lleol) drwy gryfhau'r ffordd yr ydym yn archwilio darpariaeth a sgiliau
- ystyried rôl cofrestru yn y dyfodol er mwyn proffesiynoli a chefnogi staff proffesiynol gwirfoddol a staff proffesiynol sy'n gweithio am dâl ym maes gwaith ieuenctid yng Nghymru
- cefnogi'r gwaith o rwydweithio, nodi a rhannu arferion gorau ymhellach drwy Nod Ansawdd Gwaith Ieuenctid gwell, cynadleddau gwaith ieuenctid, digwyddiadau a Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid
- sefydlu methodoleg ar gyfer grymuso pobl ifanc a'r gweithlu drwy weithredu dull sy'n seiliedig ar arweinyddiaeth systemau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu camau ar draws y Cynllun Gweithredu – bydd hynny'n sicrhau bod y sector yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu ein cyfarwyddyd strategol newydd.



# 4. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall

> "Dylai gwaith ieuenctid fod yn bwysig i bawb!"

Mae gwaith ieuenctid yn sicrhau manteision sylweddol i bobl ifanc. Mae hynny ynddo'i hunan yn sail resymegol gadarn dros fuddsoddi mewn cyflawni gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, mae'n fwy byth o reswm dros fuddsoddi ynddo pan ystyriwn y buddion ehangach i Gymru drwy gefnogi pobl ifanc i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ynghyd â threchu tlodi, felly, mae gan waith ieuenctid ran i'w chwarae yn cryfhau'r sylfeini ar gyfer cyflawni ffyniant i bawb, gan gyfrannu'n uniongyrchol ar draws y pedair thema allweddol a'r rhan fwyaf o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017)[6]. Mae'n cefnogi Cenhadaeth ein Cenedl, gan helpu i sicrhau llwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol. Fel rhan o hynny, mae gan weithwyr ieuenctid ran hanfodol i'w chwarae ym maes addysg ffurfiol wrth helpu i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022[7]. Yn ychwanegol at hynny, maent yn bwysig mewn perthynas â'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* (2017)[8], sy'n cefnogi pobl ifanc i barhau i ddilyn cyrsiau addysg, aros mewn cyflogaeth neu dan hyfforddiant, neu i roi cynnig arall arni os yw hynny'n briodol.

[6] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf

[7] Mynegir pedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022 o ran yr hyn y dylai pob plentyn a pherson ifanc fod a'i gyflawni drwy eu haddysg ysgol – dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

[8] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cynllun-gweithredu-fframwaith-ymgysylltu-a-datblygu-ieuenctid.pdf

Mae cyfleoedd a phrofiadau gwaith ieuenctid yn cyfrannu at uchelgeisiau *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017)[9], drwy ddarparu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu allan i'r ysgol neu'r cartref. Mae ganddynt ran hanfodol i'w chwarae er mwyn cyflawni rhai o'r prif ymrwymiadau yn *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (2018)[10], gan sicrhau tegwch o ran canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol drwy helpu pobl ifanc i ddeall sut i ddewis ffyrdd iach o fyw a'u cyfeirio at gymorth. Mae manteisio ar gyfleoedd gwaith ieuenctid yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ac yn hybu cydlyniant cymunedol, drwy helpu pobl ifanc i ddeall eu hawliau, defnyddio'u llais, a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn olaf, mae meithrin ymdeimlad o berthyn, gan helpu pobl ifanc i ddatblygu gwytnwch ac i ddeall effaith eu hemosiynau a'u gweithredoedd, hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau'r risg y bydd rhywun yn cymryd mantais ohonynt neu y byddant yn troseddu.

Er mwyn cynyddu cyfraniad gwaith ieuenctid i'r meysydd hynny, mae angen iddo gael ei werthfawrogi a'i ddeall ar bob lefel yn y system, felly mae ar flaen meddwl y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth iddynt gomisiynu darpariaeth neu ystyried ei heffaith.

## Mae arnom eisiau i waith ieuenctid:

- gael ei gydnabod oherwydd ei werth a'i effaith gan unigolion, ymddiriedolaethau elusennol, comisiynwyr a gwasanaethau sector cyhoeddus ar bob lefel
- chwarae rhan weithredol, sefydledig yn y broses o ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc a gweithredu'r gwasanaethau hynny mewn meysydd polisi/rhaglenni gwaith amrywiol
- gallu manteisio ar sail dystiolaeth gadarn y gellir ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ac i ddylanwadu ar ddulliau o weithio gyda phobl ifanc, a sicrhau canlyniadau iddynt
- cael cyfleoedd i ddathlu ei waith a chymryd rhan mewn trafodaeth gyda'r cyhoedd a gwleidyddion ynglŷn ag effaith ei ddulliau.

## Wrth weithio tuag at y nodau hyn, rydym wedi:

- cydnabod rôl gwaith ieuenctid fel ymyriad effeithiol ac ataliol, a hwyluso trafodaethau ynglŷn â rôl gwaith ieuenctid ar draws y sector gwirfoddol, strwythurau awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid
- dathlu rôl ac effaith gwaith ieuenctid yn gyhoeddus drwy ddigwyddiadau, gan gynnwys yn flynyddol drwy'r Wythnos Gwaith Ieuenctid
- elwa o waith ymchwiliadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Cadernid Meddwl'[11] a 'Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?'[12], gan adeiladu ar eu hargymhellion er mwyn cryfhau ein dull gweithredu
- cydweithio fel sector i bwysleisio rôl gwaith ieuenctid yn y gwaith o helpu i gyflawni rhaglenni gwaith lleol a chenedlaethol.

---

[9] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

[10] gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf

[11] www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf

[12] www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10870/cr-ld10870-w.pdf

## I'n symud tuag at ein gweledigaeth gyffredin byddwn yn:

- datblygu, lansio a gweithredu Cynllun Cyfathrebu a Marchnata Gwaith Ieuenctid a fydd yn gwella dealltwriaeth pobl o bŵer ac effaith gadarnhaol gwaith ieuenctid
- cryfhau cyfraniad gwaith ieuenctid ar draws agendâu'r llywodraeth, gan gynnwys ym maes addysg, gan sefydlu partneriaethau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm
- diweddaru ac yn ail-lansio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gan egluro swyddogaeth gwaith ieuenctid er mwyn helpu i'w gyflawni
- helpu gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gwaith ieuenctid i gyflwyno tystiolaeth o effaith eu dulliau gweithredu drwy ddatblygu pecynnau cymorth ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar hunanwerthuso, monitro effaith, a mesur boddhad pobl ifanc mewn perthynas ag ansawdd y gwaith ieuenctid y maent yn cael profiad ohono
- archwilio gyda gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gwaith ieuenctid sut y gellid eu cefnogi'n well i ddatblygu a gweithredu mentrau arloesol a chydweithredol gyda phartneriaid amrywiol
- ymestyn cyrhaeddiad ac effaith yr Wythnos Gwaith Ieuenctid fel mecanwaith ar gyfer hyrwyddo gwaith ieuenctid a phobl ifanc ar lefel genedlaethol.



# 5. Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid

> “Mae angen i mi wybod y bydd yno. Mae angen i waith ieuenctid fod yn rhywbeth fydd yn para.”

Drwy weithio gyda'n gilydd i weithredu'r meysydd sydd wedi'u nodi hyd yn hyn, byddwn yn gwella'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru yn sylweddol ac yn cymryd camau breision tuag at sicrhau ei chyfeiriad strategol yn yr hirdymor. Er hynny, mae angen gwneud rhagor os ydym am ddatblygu a gwireddu model gwirioneddol gynaliadwy.

Mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu gan nifer o wasanaethau a chan grŵp amrywiol o unigolion a sefydliadau. Mae'r amrywiaeth hwn a'r gallu i addasu yn arwydd o gryfder, ond gall fod yn her hefyd, wrth i ni geisio meddwl sut mae datblygu dealltwriaeth gadarn o natur gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys sut mae'n cael ei ariannu, ei gynllunio, ei ddarparu a'i ddal yn atebol. Yn ychwanegol at hyn, mae angen gwneud rhagor mewn perthynas â'r sail statudol ar gyfer gwaith ieuenctid, gan gynnwys deall a yw'r trefniadau presennol yn glir, ynteu a ydynt yn annog anghysondeb o ran y dulliau gweithredu a ddefnyddir ar draws Cymru.

Mae arnom angen gwell dealltwriaeth o'r atebion i'r cwestiynau hyn os ydym am ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o waith ieuenctid yng Nghymru, creu tir cyffredin rhwng nifer o ddarparwyr a meithrin ymrwymiad go iawn i fuddsoddiad tymor hir yn y gwaith o'i ddarparu. Mae gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd ar gyfer partneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr a chyfle i wneud arbedion drwy ymyriadau a gweithredu ataliol cynnar. Fodd bynnag, er bod y systemau a'r strwythurau ar gyfer cynllunio a chyflawni'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n dda mewn rhai meysydd, nid ydynt bob amser yn gyson â safonau cyffredin neu ffyrdd cyffredin o weithio. Mae diffyg cyfeiriad strategol a llinellau atebolrwydd aneglur wedi gwneud y sefyllfa'n waeth.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth mae arnom angen model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r adnoddau, y sgiliau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni. Rhaid cael atebolrwydd a disgwyliadau clir ar gyfer cyflawni ar bob haen yn y system.

## Mae arnom eisiau model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru:

- sydd ag arweinyddiaeth gref ar bob lefel i helpu i lywio'r sector wrth iddo symud ymlaen
- sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth glir o werth gwaith ieuenctid i Gymru, a diben cyffredin i sicrhau cyfleoedd a phrofiadau sy'n cyfoethogi bywydau ein pobl ifanc beth bynnag eu cefndir a lle bynnag y maent yn byw
- sy'n deall cwmpas, graddfa ac ansawdd gwaith ieuenctid mewn sector amrywiol ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer safonau, rolau a chyfrifoldebau
- sy'n seiliedig ar fodel ariannol tryloyw a theg sy'n dod â chysondeb a chydlyniant i natur anghyfartal y cyllido sy'n bodoli ar hyn o bryd
- sy'n defnyddio gwybodaeth archwilio i gefnogi'r gwaith o gynllunio, cyflawni a monitro dulliau gweithredu yn lleol ac yn genedlaethol
- sydd â mecanweithiau i sicrhau atebolrwydd, a therminoleg syml a chlir fel bod unigolion, sefydliadau a gwasanaethau yn deall eu rôl a lle maent yn perthyn yn y gadwyn gyflawni
- sy'n elwa ar gytundebau partneriaeth a ffyrdd sefydledig o weithio o fewn gwasanaethau a rhwng gwasanaethau.

## Wrth weithio tuag at y nodau hyn, rydym wedi:

- penodi Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro i ymgysylltu â phobl ifanc a'r sector, gan ddarparu arweinyddiaeth a chyngor, a helpu i ddatblygu ein dull gweithredu strategol newydd
- buddsoddi'n flynyddol yn y gwaith o archwilio darpariaeth awdurdodau lleol a dadansoddi'r wybodaeth a gesglir
- ceisio deall y cyd-destun strategol y mae gwaith ieuenctid yn gweithredu ynddo ar lefel awdurdodau lleol ochr yn ochr â'u partneriaid yn y sector gwirfoddol
- cyd-ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer y Grant Cymorth Ieuenctid fel rhan o ymdrechion i sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid fwy cyson ledled Cymru
- gweithio er mwyn sefydlu cydberthnasau a gwella gwaith partneriaeth, mewn sector gwaith ieuenctid unedig a chyda meysydd gwasanaeth eraill
- gwerthuso ffrydiau cyllido a dulliau gweithredu strategol Llywodraeth Cymru, gan weithredu argymhellion perthnasol sy'n ceisio gwella'u gweithrediad.

## I'n symud tuag at ein gweledigaeth gyffredin byddwn yn:

- dal i ddarparu arweinyddiaeth glir mewn cyfnod o newid – bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, Llywodraeth Cymru ac arweinwyr strategol yn y sector yn gweithredu fel modelau rôl
- gweithio gyda'n partneriaid, gan eu helpu i fapio eu darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ardaloedd lleol, i ganfod cwmpas, graddfa ac ansawdd y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru
- gwerthuso'r mecanweithiau a ddefnyddir i gyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru, a chynnig model mwy cynaliadwy, tecach o gyllido
- cytuno ar rolau a chyfrifoldebau, egluro terminoleg a chryfhau mecanweithiau atebolrwydd ar bob haen ac ar draws gwasanaeth ieuenctid unedig
- archwilio'r fframwaith statudol sy'n cefnogi ac yn annog darparu gwaith ieuenctid ac ystyried beth y mae angen iddo newid er mwyn sicrhau bod ein gweledigaeth gyfunol yn cael ei gwireddu
- cyhoeddi adroddiad gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ar ddiwedd ei gyfnod gwasanaeth a fydd yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers cyhoeddi'r strategaeth hon, ac yn gwneud argymhellion clir i Weinidogion Cymru ynglŷn â beth y mae angen iddo newid.



# Casgliad

Ffrwyth trafodaethau manwl gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid ar bob lefel o'r system yw'r cyfeiriad strategol a gynigir yn y strategaeth hon. Mae eu hymrwymiad positif yn ystod y broses a'u cyfraniadau gwerthfawr wedi llywio'n uniongyrchol y ffordd ymlaen y cytunwyd arni gan bawb.

Gyda'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r camau gweithredu ar lefel uchel bellach yn eu lle, mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae yn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn golygu cymryd camau fel unigolion ac ar y cyd ag eraill ar draws y sector ac ar bob lefel. Drwy hyn yr awn ati i geisio grymuso gwasanaeth ieuenctid unedig, mewn partneriaeth â phobl ifanc, i fod yn brif ysgogwyr newid wrth ddatblygu cyfeiriad strategol newydd a'i roi ar waith. Caiff yr ymdrechion hyn eu hwyluso gan lywodraeth, drwy weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, a fydd yn parhau i roi cyngor ac arweiniad gan sicrhau hefyd ein bod yn aros yn driw i'n gweledigaeth gyffredin.

Bydd y Cynllun Gweithredu ategol yn egluro pwy fydd yn gyfrifol am ymgymryd â gwahanol gamau gweithredu ac yn nodi hefyd y cerrig milltir i'w cyflawni. Bydd hefyd yn ddogfen fyw ac yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ac yn diweddaru'r dulliau gweithredu i'w defnyddio wrth i dystiolaeth newydd ymddangos. Bydd y fersiwn gyntaf yn cael ei chyfyngu o ran amser i oes y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a fydd yn mynd ati i gyflymu'r broses o newid, ac yn eu cefnogi i ddatblygu'r dystiolaeth angenrheidiol a fydd yn sail i'w hargymhellion ar ddiwedd eu cyfnod.

# Geirfa

### Addysg ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol

- Mae **addysg ffurfiol** yn cyfeirio at 'system addysg' sydd wedi'i strwythuro'n hierarchaidd a'i graddio'n gronolegol o'r ysgol gynradd i'r brifysgol ac sy'n cynnwys amrywiaeth o raglenni a sefydliadau arbenigol ar gyfer hyfforddiant technegol a phroffesiynol llawn amser yn ogystal ag astudiaethau academaidd cyffredinol.
- Mae **addysg anffurfiol** yn cyfeirio at y broses gydol oes wirioneddol lle y mae pob unigolyn yn dysgu am agweddau, gwerthoedd, sgiliau a gwybodaeth o brofiadau dyddiol a'r dylanwadau a'r adnoddau addysgol yn ei amgylchedd – o deulu a chymdogion, gwaith a chwarae, y farchnad, y llyfrgell a'r cyfryngau torfol.
- Mae **addysg heb fod yn ffurfiol** yn cyfeirio at unrhyw weithgarwch addysgol trefnedig y tu allan i'r system ffurfiol sefydledig – p'un a yw'n gweithredu ar wahân neu fel rhan bwysig o weithgarwch ehangach – y bwriedir iddo wasanaethu cwsmeriaid sy'n dysgu ac amcanion dysgu adnabyddadwy.

Y prif wahaniaeth rhwng addysg ffurfiol, addysg anffurfiol ac addysg heb fod yn ffurfiol yw'r lleoliad a'i effaith ar addysgeg a deilliannau. Mae addysg ffurfiol yn gysylltiedig ag ysgolion a sefydliadau hyfforddiant; mae addysg anffurfiol yn ymwneud â grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill; ac mae addysg heb fod yn ffurfiol yn cyfeirio at yr hynny sy'n weddill, e.e. rhyngweithio â ffrindiau, teulu a chydweithwyr. Nid yw'r diffiniadau hyn yn gategorïau pendant, gan y gallai'r addysg anffurfiol a'r addysg heb fod yn ffurfiol orgyffwrdd mewn rhai achosion (a pheri dryswch).

### Asiantaeth Gwybodaeth Ieuenctid a Chwnsela Ewrop (ERYICA)

ERYICA yw sefydliad annibynnol yn Ewrop sy'n cynnwys cyrff a rhwydweithiau cydlynu gwybodaeth ieuenctid cenedlaethol a rhanbarthol. Ei nod yw dwysáu'r gweithgarwch yn Ewrop ac yn rhyngwladol ym maes gwybodaeth a gwasanaethau ieuenctid. Mae'n datblygu, yn cefnogi ac yn hyrwyddo polisïau ac arferion cyffredinol ac o ansawdd ym maes gwybodaeth ieuenctid ar bob lefel er mwyn diwallu anghenion y bobl ifanc o ran yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt a chymhwyso egwyddorion Siarter Gwybodaeth Ieuenctid Ewrop.

### Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro

Rôl y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yw cynrychioli pobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar fodel cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid. Bydd cyfnod y bwrdd yn para am ddwy flynedd o fis Hydref 2018.

### Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Mae'r CLlLC yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hyrwyddo llywodraeth leol well a'i henw da, a helpu awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

### Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru (CWVYS)

Mae CWVYS yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli a chefnogi sefydliadau ieuenctid gwirfoddol ar lefel genedlaethol.

### Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer gweithwyr ieuenctid yw CGA. Ers mis Ebrill 2017, rhaid i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid sy'n darparu gwasanaethau

ar gyfer awdurdod lleol, ysgol, sefydliad addysg uwch neu sefydliad gwirfoddol yng Nghymru neu ar eu rhan ac sy'n meddu ar y cymwysterau a nodir yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru, gofrestru â'r CGA.

### Darpariaeth mynediad agored

Darpariaeth mynediad agored yw darpariaeth ieuenctid y gall pob person ifanc ei mynychu'n wirfoddol. Gall gynnwys amrywiaeth o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chyfoethogi, sydd aml yn seiliedig ar ganolfannau ieuenctid ac a ddarperir mewn partneriaeth â chymunedau lleol yn gyffredinol.

### Darpariaeth wedi'i thargedu

Darpariaeth wedi'i thargedu yw darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys timau allgymorth sy'n gyfrifol am waith yn y gymdogaeth ac ar y strydoedd, gwasanaethau cyngor ac arweiniad i bobl ifanc, timau cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau iechyd rhywiol a chymorth i'r digartref.

### Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

Datblygwyd i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sy'n wynebu'r risg o ddod yn NEET, mae'r fframwaith, ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, yn ddarparu dull systematig a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adnabod y rheini sydd angen cymorth, i nodi'r cymorth sydd ar gael ac i olrhain cynnydd y bobl ifanc wrth iddynt bontio o addysg i addysg bellach neu gyflogaeth.

### Grant Cymorth Ieuenctid

Arian blynyddol sy'n cael ei roi i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu gwaith ieuenctid agored a phenodol, ac hefyd i gefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Darperir yr arian yma ar sail fformiwla.

### Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol

Cyllid a ddarperir i Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid craidd ac sy'n seiliedig ar brosiectau ledled Cymru.

### Grŵp y Prif Swyddog Ieuenctid

Cymuned ddysgu broffesiynol o swyddogion mewn swydd sy'n cynnwys prif swyddogion ieuenctid o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gan y grŵp rôl sefydledig yn cynghori ar ddatblygiad strategol a darparu Gwasanaethau Ieuenctid a mentrau cysylltiedig eraill ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru.

### *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* (2018)

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i waith ieuenctid ac yn rhoi trosolwg o'i natur, ei ddibenion a'r dull o'i ddarparu. Cwblhawyd y ddogfen ar y cyd gan gynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol a gwaith ieuenctid awdurdodau lleol yng Nghymru a Chyngor y Gweithlu Addysg.

### Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

O dan adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ddarparu, trefnu neu gymryd rhan mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Ystyr 'gwasanaethau cymorth ieuenctid' yw gwasanaethau a fydd ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, neu i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth mewn awdurdodau lleol, darparwyr y sector gwirfoddol lleol a darparwyr y sector gwirfoddol cenedlaethol/trydydd sector.

### Gwasanaethau Ieuenctid

Caiff gwasanaethau ieuenctid eu diffinio fel arfer fel gwasanaethau sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc drwy ddarpariaeth addysg heb fod yn ffurfiol.

### Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid

Mae'r gwobrau blynyddol hyn yn gyfle i gydnabod a dathlu gwaith rhagorol prosiectau gwaith ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a'r gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid ledled Cymru.

### Model arweinyddiaeth systemau

Model ar gyfer arweinyddiaeth sefydliadol sy'n gosod ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddatblygu polisïau a chyflawni.

### NEET

Mae hyn yn cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

### Nod Ansawdd

Y Nod Ansawdd, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, yw cyfres o ddangosyddion a safonau ansawdd y gall sefydliadau eu defnyddio i hunanasesu ansawdd ac effaith eu gwaith gyda phobl ifanc a datblygu cynlluniau ar gyfer gwella.

### Prif Swyddog Ieuenctid

Defnyddir y term i gyfeirio at y swyddog a enwebwyd gan bob awdurdod lleol i weithredu fel pennaeth strategol y Gwasanaeth Ieuenctid.

### Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru

Mae ETS Cymru yn cefnogi rhaglenni hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid o ansawdd uchel yn broffesiynol i sicrhau eu bod yn addas ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, gweithwyr ieuenctid eu hunain a'r bobl ifanc y maent yn cydweithio â nhw. Mae'n cwblhau'r gwaith hwn ar ran y Cydbwyllgor Negodi dros Weithwyr Ieuenctid a Chymuned.

### Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol

Yn y cyd-destun hwn, sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn 18 o ardaloedd awdurdodau lleol neu fwy.

### Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru

Cyhoeddwyd yn 2016, mae'r Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru yn nodi disgwyliad sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid ledled Cymru.

### *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Cyfarwyddyd a Chanllawiau* (2002)

Mae'r ddogfen hon yn gosod sail statudol a chanllawiau ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid Cymru am y tro cyntaf. Mae'n nodi bod 'addysg anffurfiol', yng nghyd-destun darpariaeth gwaith ieuenctid, yn cyfeirio at broses dysgu sy'n cynnwys gweithgarwch gwirfoddol o ymgysylltu pobl ifanc â gwasanaethau sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.